

## Crynodeb Gwirio Ansawdd

Enw'r gwasanaeth: Practis Deintyddol

Matthews a Jones

Dyddiad y gweithgarwch: 04 Hydref 2022

Dyddiad cyhoeddi: 22 Tachwedd 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Bractis Deintyddol Matthews a Jones fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Practis Deintyddol Matthews a Jones yn darparu gwasanaethau i gleifion yn Nhrefynwy a'r cyffiniau. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra o ymdrin â gwaith sicrwydd, ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015, a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 (a rheoliadau perthnasol eraill).

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae gwiriadau ansawdd yn ein galluogi i ystyried sut mae'r gwasanaethau yn cyrraedd y safonau perthnasol mewn ffordd ystwyth, gan ein galluogi i roi cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithredu'r gwasanaethau mewn ffordd ddiogel. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad ag un o'r prif ddeintyddion, sy'n gweithredu fel y rheolwr cofrestredig hefyd, ar 4 Hydref 2022 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am y gwasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut mae'r practis yn sicrhau bod trefniadau priodol ar waith sy'n cynnal safonau atal a rheoli heintiau?
- Sut mae'r practis yn sicrhau bod pob claf (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed/sy'n wynebu risg) yn gallu cael gafael ar wasanaethau yn briodol ac yn ddiogel?
- Sut mae'r practis yn diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis yn sicrhau ei fod yn cynnal ansawdd o ran gofal cleifion ac o ran cyflenwi gwasanaethau?
- Sut mae'r practis yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull seiliedig ar hawliau ar waith ym mhob rhan o'r gwasanaeth?

---

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y dogfennau allweddol a welsom roedd:

- Yr asesiadau risg/archwiliad amgylcheddol diweddaraf.

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

### **Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom fod y gwasanaeth wedi cynnal yr asesiadau risg perthnasol ac wedi diweddarau polisiau a gweithdrefnau perthnasol er mwyn bodloni gofynion ychwanegol pandemig COVID-19.

Cawsom wybod bod amgylchedd y practis yn cael ei fonitro'n rheolaidd i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac yn daclus.

Dywedwyd wrthym fod amgylchedd y practis wedi'i asesu er mwyn helpu a gwella trefniadau rheoli heintiau ar ddechrau pandemig COVID-19. Dywedwyd wrthym fod y newidiadau canlynol wedi'u gwneud:

- Rhoddwyd gweithdrefnau desgiau clir ar waith a chafwyd gwared ar eitemau diangen o'r deintyddfeydd, y dderbynfa a'r ardal aros
- Gosodwyd gwyntyllau echdynnu ym mhob deintyddfa
- Gosodwyd sgrin wydr amddiffynnol yn y dderbynfa
- Cafodd lloriau finyl eu gosod yn lle'r carpedi drwy'r practis
- Trefniadau ar gyfer cadw pellter cymdeithasol yn yr ystafell aros
- Hysbysfwrdd caeedig
- Darparwyd peiriannau hylif diheintio dwylo mewn lleoliadau amrywiol.

Er mwyn diogelu'r staff a'r cleifion, dywedwyd wrthym mai dim ond drwy wahoddiad ac

---

---

apwyntiadau wedi'u trefnu ymlaen llaw y mae cleifion y mae angen iddynt weld deintydd yn dod i'r practis. Dywedwyd wrthym fod y staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol, a bod pob claf yr oedd angen triniaeth arno yn cael ei sgrinio ar gyfer symptomau COVID-19. Mae'r staff hefyd yn gofyn cwestiynau sgrinio COVID-19 i'r cleifion wrth iddynt gyrraedd y practis, cyn iddynt ddod i mewn i'r ddeintyddfa.

Dywedwyd wrthym fod rhai cadeiriau wedi cael eu symud o'r ardal aros er mwyn sicrhau pellter cymdeithasol rhwng cleifion.

Nodwyd gennym hefyd fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant dadebru cardio-anadlol a hyfforddiant tân.

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod rhai o'r taflenni a'r arwyddion gwybodaeth yn y practis yn ddwyieithog. Cawsom wybod fod un aelod o'r staff yn gallu cyfathrebu'n ddwyieithog â'r cleifion. Mae cyfieithydd hefyd ar gael i'r practis.

### **Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y cyfarpar a'r cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel mewn man y gellir mynd iddo'n hawdd pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn y practis. Cawsom wybod fod gan y practis ddwy set o gyffuriau a chyfarpar brys a gedwir ar y safle. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod system ar waith i archwilio'r cyffuriau brys bob wythnos er mwyn sicrhau bod y dyddiad arnynt yn gyfredol a'u bod yn barod i'w defnyddio, yn unol â'r safonau a luniwyd gan y Cyngor Dadebru (DU). Fodd bynnag, cadarnhawyd na chaiff rhestr wirio ei chynnal i gofnodi'r gwaith o archwilio'r cyfarpar brys. Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y cyfarpar brys yn cael ei archwilio bob wythnos a bod rhestr wirio'n cael ei chynnal.

## **Atal a rheoli heintiau**

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y dogfennau allweddol a welsom roedd:

- Polisi glanhau
- Cofnodion o wiriadau dyddiol o'r bath uwchsain a gweithdrefnau dihalogi wrth lanhau â llaw
- Cofnodion o wiriadau dyddiol o awtoclafau
- Rhestrau gwirio o'r gwaith cynnal a chadw dyddiol ar gyfer y deintyddfeydd
- Polisi Gweithdrefnau sy'n Cynhyrchu Aerosol
- Polisi rheoli heintiau
- Aseiad Risg COVID-19 y Gweithlu

- 
- Archwiliad dihalogi diweddaraf Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05<sup>1</sup> a'r cynllun gweithredu ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella.

### **Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Roedd polisi rheoli heintiau ar waith, a oedd yn cynnwys cyfeiriad at hylendid dwylo, trin a thrafod a gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel, trefniadau cadw tŷ a glanhau a hyfforddiant perthnasol.

Nodwyd gennym hefyd fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y staff wedi cael diweddariadau atal a rheoli heintiau rheolaidd drwy gyfarfodydd practis. Drwy gyfathrebu'n rheolaidd, sicrhawyd bod pawb yn cael y cyngor a'r canllawiau diweddaraf ar weithdrefnau atal a rheoli heintiau.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod prosesau ar waith er mwyn amddiffyn y cleifion a'r staff pan fydd gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol (AGP)<sup>2</sup> yn digwydd.

Dywedwyd wrthym fod defnydd da yn cael ei wneud o PPE, bod cyflenwadau digonol a bod y cyflenwadau hynny'n cael eu monitro bob wythnos gan aelod o'r tîm.

Roedd archwiliadau rheoli heintiau wedi cael eu cwblhau gan ddefnyddio adnoddau archwilio cydnabyddedig, gan gynnwys adnodd archwilio Addysg a Gwella Iechyd Cymru, sy'n cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Rydym yn cydnabod bod hyn yn arfer da am fod yr archwiliad yn gynhwysfawr.

Cawsom gopi o'r weithdrefn glanhau â llaw ar gyfer dihalogi offer deintyddol. Gwnaethom nodi nad oedd tymheredd y dŵr i'w ddefnyddio yn ystod y weithdrefn lanhau wedi'i gofnodi yn y weithdrefn. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y byddai'r weithdrefn glanhau â llaw yn cael ei hadolygu a'i diweddarau, a chawsom dystiolaeth, yn syth ar ôl ein gwiriad ansawdd, fod hyn wedi'i wneud.

Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis raglen cynnal a chadw ddyddiol er mwyn gwirio'r cyfarpar sterileiddio. Roedd llyfr cofnod ar gael ar gyfer yr awtoclaf<sup>3</sup> a'r bath uwchsain<sup>4</sup> yn

---

<sup>1</sup> Mae WHTM 01-05 yn cynnwys gwybodaeth am archwiliad o gydymffurfiaeth â mesurau dihalogi. Mae'r archwiliad wedi cael ei ddatblygu gan ddeintyddion yng Nghymru ac mae Adran Ddeintyddol Addysg a Gwella Cymru yn cefnogi hyn.

<sup>2</sup> Gweithdrefn feddygol yw gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol (AGP), a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr awyr (aerosolau) o'r llwybr anadlol wrth drin unigolyn yr amheuir neu y gwyddys ei fod yn dioddef o haint a gaiff ei drosglwyddo, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, drwy'r awyr neu drwy ddefnyddiau.

<sup>3</sup> Eitemau o gyfarpar a ddefnyddir mewn practisau deintyddol i sterileiddio'r holl offer a deunyddiau a ddefnyddir yn ystod triniaethau proffesiynol yw awtoclafau.

<sup>4</sup> Mae glanhawr uwchsain yn cael gwared ar fiolwyth gan ddefnyddio tonnau sain a gynhyrchir gan ynni

---

dangos bod gwiriadau diogelwch yn cael eu cynnal ar ddechrau a diwedd y dydd.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, holodd AGIC gynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut maent yn rheoli eu gwasanaethau er mwyn helpu i ddarparu gofal iechyd o ansawdd uchel. Gwnaethom ystyried a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod y staff yn addas i gyflawni eu rolau a'u bod wedi cael yr hyfforddiant priodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Ymhlith y dogfennau allweddol a welsom roedd:

- Datganiad o Ddiben
- Taflen Wybodaeth i Gleifion
- Archwiliad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)
- Archwiliad cardiau cofnodion
- Polisiâu / gweithdrefnau cydsyniad ar sail gwybodaeth
- Cynllun parhad busnes
- Cofnodion hyfforddiant gorfodol
- Adroddiad Rheoliad 23 (ymweliad yr Unigolyn Cyfrifol).

### Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cawsom gopi o'r datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion, a oedd yn cynnwys y wybodaeth berthnasol am y gwasanaethau a gynigir.

Cawsom sampl o bolisiâu a gweithdrefnau'r practis. Gwelsom fod y rhain wedi'u hadolygu yn ystod y flwyddyn a bod fersiynau gwahanol yn cael eu nodi a'u bod yn cynnwys llofnodion staff i ddangos eu bod wedi cael eu darllen a'u deall.

Cawsom dystiolaeth a oedd yn cadarnhau bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau ac i fodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

Roedd yn amlwg o'r dogfennau allweddol a welsom fod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir i gleifion yn barhaus. Cawsom gopiâu o'r archwiliadau perthnasol a oedd wedi'u cwblhau'n ddiweddar megis archwiliadau croes-heintio a phelydrau-X. Lle bo'n ofynnol, cafodd cynllun gweithredu ei ddatblygu a'i gynnal.

---

trydanol. Wrth i'r tonnau sain symud drwy'r hydoddiant glanhau hylif, maent yn creu'r ffurfiant a hwrdd o filiynau o swigod bach.

---

Rhodddwyd adroddiad diweddaraf yr unigolyn cyfrifol i ni, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Roedd yr adroddiad yn dangos tystiolaeth o'r ffordd y caiff ansawdd y gwasanaeth a ddarperir ei reoli a'i asesu er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni gofynion y rheoliadau a'r safonau perthnasol.

Gwelsom fod gan y practis gynllun parhad busnes ar waith i sicrhau parhad y gwasanaethau a ddarperir a gofal diogel i'r cleifion.

Dywedwyd wrthym na wnaeth y practis gau yn ystod y pandemig. Drwy gydol y pandemig, gwnaeth y practis barhau i drin cleifion brys, ar ôl eu sgrinio am COVID-19.

Dywedwyd wrthym am y trefniadau sydd wedi'u gwneud a'r camau sydd wedi'u cymryd hyd yma ar gyfer achosion pan fydd angen i aelodau o'r staff hunanynysu neu pan fyddant yn cael prawf COVID-19 positif. Darparwyd adroddiad manwl o'r weithdrefn i ni. Roeddem yn fodlon bod y gweithdrefnau hyn yn sicrhau cyn lleied â phosibl o risg o ledaenu COVID-19 ymhlith y staff a'r cleifion.

Cawsom wybod bod y practis wedi cynnal ei brosesau ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau. Dywedwyd wrthym fod y staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran rhoi gwybod am ddigwyddiadau i asiantaethau rheoleiddiol gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).

Canmolodd y rheolwr cofrestredig y staff yn fawr am y ffordd y maent wedi ymateb i anghenion y practis a'r cleifion a'r ffordd y maent wedi cefnogi ei gilydd yn ystod pandemig COVID-19.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

---

## Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella a phryderon uniongyrchol yn ystod ein gwiriad ansawdd y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn:

- Atodiad A: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn dweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i ymdrin â'r meysydd hyn.



Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Cynllun Gwella Ar Unwaith

Lleoliad: Practis Deintyddol Matthews a Jones

Dyddiad y gweithgarwch: 04 Hydref 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith            | Safon/<br>Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--|--------------------|-----------------------------------|------------------|----------|
| Nid oes unrhyw welliannau ar unwaith yn ofynnol. |                    |                                   |                  |          |
|  |                    |                                   |                  |          |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

## Atodiad B: Cynllun gwella

Lleoliad: Practis Deintyddol Matthews a Jones

Dyddiad y gweithgarwch: 04 Hydref 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y Gwiriad Ansawdd, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i ymdrin â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Yr hyn sydd angen ei wella  | Safon/<br>Rheoliad                     | Camau gweithredu gan y<br>gwasanaeth   | Swyddog<br>cyfrifol   | Amserlen        |
|---|--|--|-----------------------|-----------------|
| Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y cyfarpar brys yn cael ei archwilio bob wythnos a bod rhestr wirio'n cael ei chynnal. | Canllawiau'r<br>Cyngor Dadebru<br>(DU) | Mae hyn eisoes yn cael ei wneud gan y nyrs sy'n gyfrifol ar hyn o bryd am archwilio ein pecyn cyffuriau brys | Anthony J<br>Matthews | Eisoes ar waith |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd** y **Anthony J Matthews**  
**gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):** Anthony J Matthews

**Teitl swydd:** Perchennog y Busnes / Prif Ddeintydd

**Dyddiad:**

**29/10/2022**